## NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn nodi'r prawf y mae'n rhaid i awdurdod lleol ei gymhwyso i ddyfarnu p'un a oes gan unigolyn y mae ei anghenion wedi eu nodi mewn asesiad o dan adran 19, 21 neu 24 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 ("y Ddeddf") hawlogaeth ai peidio i gael yr anghenion hynny wedi eu diwallu gan awdurdod lleol. Mae'r Rheoliadau yn nodi'r profion sydd i'w cymhwyso mewn perthynas ag oedolion, â phlant ac â gofalwyr.

Mae rheoliadau 3, 4 a 5 yn nodi'r meini prawf cymhwystra ar gyfer oedolion, ar gyfer plant ac ar gyfer gofalwyr yn ôl eu trefn. Ym mhob achos mae'r meini prawf yn cynnwys gofyniad ynghylch sut y mae'r angen o dan sylw yn codi, ynghylch a yw'n ymwneud ag un o'r ffactorau sy'n gysylltiedig â llesiant, ynghylch p'un a all yr angen gael ei ddiwallu ai peidio gan y person ar ei ben ei hun neu gyda chymorth, ac ynghylch a yw person yn debyg o sicrhau canlyniadau personol ai peidio heb ddarpariaeth gofal a chymorth gan yr awdurdod lleol.

Mae rheoliad 6 yn darparu, at ddibenion barnu p'un a yw person yn gallu diwallu un o'i anghenion ai peidio, p'un a yw hynny gyda chymorth neu hebddo, y dylid ystyried nad yw'n gallu gwneud hynny hyd yn oed os yw'n gallu diwallu'r angen mewn gwirionedd ond dim ond drwy ddioddef poen, gorbryder neu drallod sylweddol, drwy beryglu ei hun neu berson arall, neu drwy gymryd amser sylweddol hwy na'r hyn y byddid yn ei ddisgwyl fel rheol.

Pan fo anghenion yn bodloni'r meini prawf cymhwystra hyn, mae adran 32 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdod lleol ystyried yr hyn y gellid ei wneud i ddiwallu'r anghenion hynny ac a ddylai osod ffi yn unol â Rhan 5 o'r Ddeddf.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, lluniwyd asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn. Gellir cael copi drwy gysylltu â'r Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ.